OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 572 (Cy.54)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - *9 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *10 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - - *1 Ebrill 2009*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 32 a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000(**2**).

Y weithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgolion gan awdurdod addysg lleol

3.—(1) Pan fo awdurdod addysg lleol yn bwriadu dyroddi hysbysiad o dan adran 32(6) o Ddeddf Addysg 2002 i gorff llywodraethu ysgol, rhaid iddo wneud y canlynol—

(a) cyn cymryd unrhyw un o'r camau a grybwyllir ym mharagraffau (b) i (dd), ymgynghori â'r corff llywodraethu, y pennaeth a holl staff arall yr ysgol;

(b) paratoi datganiad—

(i) yn dynodi ei fod yn bwriadu newid amserau sesiynau'r ysgol,

(ii) yn pennu'r newid arfaethedig a pha bryd y bwriedir iddo ddod i rym,

(iii) yn rhoi manylion dyddiad, amser a lle'r cyfarfod y mae'n ofynnol iddo ei gynnal yn rhinwedd paragraff (d) ac yn esbonio y caiff y sawl nad yw'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y newid arfaethedig cyn i'r cyfarfod ddigwydd;

(**1**) p.32. Diwygiwyd adrannau 32 a 210 gan adran 21 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (2008 mccc 2).
(**2**) O.S. 2000/2030 (Cy.143).

(c) cynhyrchu'r datganiad hwnnw ac unrhyw atodiad mewn unrhyw iaith neu ieithoedd (yn ychwanegol at Gymraeg neu Saesneg), os oes y cyfryw, ag y mae'n ei ystyried yn briodol;

(ch) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau—

(i) bod rhieni pob disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol yn cael copi o'r datganiad (yn rhad ac am ddim) o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod y mae'n ofynnol iddo'i gynnal yn rhinwedd paragraff (d), a

(ii) bod copïau o'r datganiad ar gael i'w weld (ar bob adeg resymol ac yn rhad ac am ddim) yn yr ysgol yn ystod y pythefnos yn union cyn y cyfarfod hwnnw;

(d) rhoi cyfle i drafod yr hyn a fwriedir mewn cyfarfod sy'n agored i—

(i) pob rhiant i bob disgybl cofrestredig yn yr ysgol,

(ii) y pennaeth a holl staff arall yr ysgol,

(iii) aelodau'r corff llywodraethu,

(iv) unrhyw bersonau eraill y caiff yr awdurdod addysg lleol eu gwahodd;

(dd) ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (b)(iii) ac unrhyw sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ar yr hyn a fwriedir cyn penderfynu a ddylid newid yr amserau hynny o gwbl ac (os felly) a ddylid gweithredu'r bwriad gydag unrhyw addasiad neu heb ei addasu.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), os bydd yr awdurdod addysg lleol yn penderfynu gweithredu'r newid arfaethedig (naill ai gydag addasiad neu heb ei addasu), rhaid iddo, o leiaf dri mis cyn y bydd unrhyw newid yn dod i rym—

(i) hysbysu'r corff llywodraethu a'r pennaeth o'r newid a pha bryd y bydd yn dod i rym, a

(ii) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod rhieni pob disgybl a gofrestrwyd yn yr ysgol yn cael eu hysbysu o hynny.

(3) Rhaid gweithredu newid i amserau sesiwn ysgol fel mai ar ddechrau blwyddyn ysgol yn unig y bydd yn dod i rym.

(4) Mae dull gweithredu unrhyw gyfarfod a gynhelir yn rhinwedd paragraff (1)(d) i fod dan reolaeth yr awdurdod addysg lleol.

Y weithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgolion gan gorff llywodraethu

4.—(1) Pan fo corff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir yn bwriadu gwneud unrhyw newid i amserau sesiynau'r ysgol (neu os mai un yn unig sydd, i sesiwn ysgol), rhaid iddo wneud y canlynol —

(a) cyn cymryd unrhyw un o'r camau a grybwyllir ym mharagraff (b) i (e), ymgynghori â'r awdurdod addysg lleol, y pennaeth a holl staff arall yr ysgol;

(b) paratoi datganiad—

(i) yn dynodi ei fod yn bwriadu newid yr amserau hynny,

(ii) yn pennu'r newid arfaethedig a pha bryd y bwriedir iddo ddod i rym,

(iii) yn tynnu sylw at unrhyw sylwadau ar yr hyn a fwriedir fel y'i rhoddir yn yr atodiad i'r datganiad yn rhinwedd paragraff (c) a chynnwys unrhyw ymateb i'r sylwadau ag y mae'n ei ystyried yn briodol, a

(iv) yn rhoi manylion dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod y mae'n ofynnol iddo'i gynnal yn rhinwedd paragraff (dd) ac yn esbonio y caiff y sawl nad yw'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y newid arfaethedig cyn i'r cyfarfod ddigwydd;